**LC1180**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Rheoliadau Cynhyrchion Buchol (Cyfyngu ar eu Rhoi ar y Farchnad) (Cymru) (Rhif 2) 2005

Mae'r Rheoliadau yma'n dirymu Rheoliadau Cynhyrchion Buchol (Cyfyngu ar eu Rhoi ar y Farchnad) (Cymru) 2005 gan eu hailddeddfu gyda newidiadau penodol. Mae'r newidiadau sy'n cael eu gwneud gan y Rheoliadau yma yn angenrheidiol yng ngoleuni'r ffaith bod Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2005 yn dod i rym. Mae'r rheiny'n darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi, mewn perthynas â Chymru, offerynnau Cymunedol penodol sy'n ymwneud â hylendid bwyd.

### Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae'r Rheoliadau yma'n disodli rheoliadau Cymru-yn-unig, sef Rheoliadau Cynhyrchion Buchol (Cyfyngu ar eu Rhoi ar y Farchnad) (Cymru) 2005. Dyma'r ail set o reoliadau sy'n ymwneud â Chymru yn unig felly, yn hytrach na'r ail set o reoliadau ar y pwnc sydd y tro yma'n ymwneud â Chymru. Oherwydd hynny, dylai "Cymru" ddod o flaen "(Rhif 2)" yn nheitl y Rheoliadau, ac yn wir mae hyn wedi'i ddangos yn gywir yn y mewnosodiad sydd wedi'i wneud gan reoliad 8. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae Rheoliad 2(1) yn pennu "Rheoliad 852/2004" fel term sydd wedi'i ddiffinio yn yr Atodlen. Er ei

fod yno yn y testun Cymraeg, mae ar goll o’r Atodlen Saesneg. [Rheol Sefydlog 11.7(v) a (vi)]

Bernir mai mân wallau drafftio neu fân wallau teipograffyddol yw’r rhain, ac y byddai’n briodol eu cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Mae mân bwyntiau teipograffyddol a mân bwyntiau fformadu hefyd wedi’u nodi fel rhai y byddai’n briodol eu cywiro wrth gyhoeddi’r Rheoliadau

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 22 Tachwedd 2005